TIRLUN

# SUT GALLWN NI LEIHAU TIPIO ANGHYFREITHLON YN NHIRWEDD CENEDLAETHOL GŴYR?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn maen nhw eisoes yn ei wybod am dipio anghyfreithlon ac yn datblygu cwestiynau i archwilio eu dealltwriaeth o adroddiad am rywun sy'n ceisio ei leihau. Maen nhw'n cynnal ymchwil i ddod o hyd i atebion i'w cwestiynau ac yn amcangyfrif nifer y bagiau sbwriel sy'n cael eu casglu bob wythnos, yn ôl yr adroddiad. Mae dysgwyr yn ystyried ystod o wybodaeth ynghylch y materion sy'n ymwneud â chasglu gwastraff a thipio anghyfreithlon ac yn ysgrifennu Trydar/X er mwyn helpu eraill i feddwl am dipio anghyfreithlon. Mae dysgwyr yn ystyried pam mae tipio anghyfreithlon yn broblem, yn archwilio gwahanol safbwyntiau arno, cyn iddynt ddylunio a chynnal arolwg ynghylch tipio anghyfreithlon a dadansoddi'r canlyniadau. Maent yn dod o hyd i dystiolaeth o dipio anghyfreithlon yn Nhirwedd Cenedlaethol Gŵyr ac yn ei chofnodi, cyn iddynt ysgrifennu erthygl ar gyfer papur newydd ar-lein lleol. Mae dysgwyr yn archwilio'r gwahanol gyfryngau sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon, megis cefndir i ddatblygu ymgyrch fer eu hunain yn y cyfryngau. Maent yn creu sticer car a phoster gyda'r nod o annog pobl i gael gwared ar eu sbwriel trwy ddull cyfrifol ac yna'n myfyrio ar ddatblygiad eu hymgyrch.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o gymryd ffotograffau sy'n dangos tystiolaeth o dipio anghyfreithlon, e.e. camera, ffôn clyfar, tabled.
Dull o wneud sticer car, e.e. papur sydd â chefn gludiog.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW TIPIO ANGHYFREITHLON?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall mwy am beth yw tipio anghyfreithlon a beth y gellir ei wneud i'w leihau.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol wrth ystyried y ddelwedd.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei arsylwi?
- Beth allwch chi ei gasglu?
- Beth arall ydych chi eisiau ei wybod?
- Sut byddwch chi'n cael gwybod?

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y ddelwedd a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae edrych ar y ffotograff hwn yn gwneud i chi deimlo? Pam?
- A ydych chi wedi gweld unrhyw beth fel hyn o'r blaen yn eich ardal leol? Ble? Pryd?
- Beth yw tipio anghyfreithlon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble mae tipio anghyfreithlon yn digwydd? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam ydych chi'n meddwl bod tipio anghyfreithlon yn digwydd?
- Pwy ydych chi'n meddwl sy'n gyfrifol am dipio anghyfreithlon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i barau o ddysgwyr gyrchu a darllen adroddiad newyddion y BBC Sully: The man tackling fly-tipping one bin bag at a time (Saesneg yn unig). Gwahoddwch bob pâr i feddwl am gwestiynau y gallen nhw eu gofyn am yr arwr tipio anghyfreithlon, trwy gwblhau Taenlen Gwestiynau.

Er enghraifft, yn y blwch chwith uchaf, mae angen cwestiwn ar ddysgwyr sy'n dechrau 'Beth yw....', e.e. Beth yw enw'r arwr tipio anghyfreithlon? Yn y blwch gwaelod ar y dde, mae angen cwestiwn ar ddysgwyr sy'n dechrau 'Sut y gallai....'

Gofynnwch i'r dysgwyr lawrlwytho'r daenlen er mwyn iddyn nhw allu ei chwblhau. Byddai hefyd yn bosibl i ddysgwyr ei hargraffu, ac yna'i chwblhau.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i barau o ddysgwyr edrych ar y cwestiynau y maen nhw wedi'u creu ar y daenlen, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai yw'r pum cwestiwn gorau?
- Pam wnaethoch chi ddewis y pum cwestiwn hyn?
- Beth sy'n eu gwneud nhw'r cwestiynau 'gorau'?

Gofynnwch i bob pâr rannu eu cwestiynau 'gorau' gyda phâr arall a thrafod y cwestiwn canlynol yn eu grŵp.

**Cwestiwn ffocws**

- Sut allech chi ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau rydych chi wedi eu dethol?

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud ymchwil i ddod o hyd i atebion i'w cwestiynau ac i adrodd yn ôl i'w grŵp.

## Sgrîn 7

Atgoffwch y dysgwyr am yr adroddiad newyddion sy'n son am berson o'r enw Will Dunn, sydd wedi casglu dros 3,000 o fagiau o sbwriel dros y pedair blynedd diwethaf, mewn un ardal weddol fach yn unig. Gofynnwch iddyn nhw ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallwch chi amcangyfrif nifer y bagiau y mae wedi'u casglu ar gyfartaledd bob wythnos dros y pedair blynedd diwethaf?
- Pam y bydd y dull hwn yn gweithio?

Gwahoddwch y dysgwyr i amcangyfrif nifer y bagiau a gesglir bob wythnos ac i gymharu eu hatebion ag atebion parau eraill. Os oes gwahaniaethau yn eu hamcangyfrifon, gofynnwch i'r dysgwyr gymharu eu gwaith cyfrifo er mwyn ceisio darganfod pa bâr sydd â'r amcangyfrif mwyaf cywir.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr fod cynghorau ledled Cymru wedi gwneud ymdrech fawr yn y blynyddoedd diwethaf i annog ailgylchu gwastraff cartref a lleihau tipio anghyfreithlon.

Gwahoddwch grwpiau o ddysgwyr i chwilio am ddata a gwybodaeth o'r ffynonellau a ddarparwyd, yn ogystal â ffynonellau eraill y gallant ddod o hyd iddynt, ac yna gofynnwch iddynt ymholi'r data er mwyn cael syniad o'r materion sy'n ymwneud â chasglu gwastraff a thipio anghyfreithlon, yn enwedig yn Nhirwedd Cenedlaethol Gŵyr a'i awdurdod lleol.

## Sgrîn 9

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ddata a gwybodaeth ydych chi wedi'u casglu? O ble? Sut ydych chi'n gwybod a yw'n ddibynadwy?
- Beth mae'r data yn ei ddweud wrthych? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Faint o achosion o dipio anghyfreithlon sydd wedi digwydd yn eich ardal leol a Thirwedd Cenedlaethol Gŵyr yn ddiweddar/eleni?
- Ble mae tipio anghyfreithlon yn digwydd fwyaf yn eich ardal leol a Thirwedd Cenedlaethol Gŵyr? Pam ydych chi'n meddwl bod y rhain yn 'fannau poeth' ar gyfer tipio anghyfreithlon?
- Beth mae'r cyngor lleol wedi'i wneud ynghylch ailgylchu yn y blynyddoedd diwethaf? Pam? Pa effaith mae hyn wedi ei chael?
- Pa batrymau a thueddiadau dros amser allwch chi eu nodi?
- Pa gasgliadau allech chi ddod iddynt o'r data ar ailgylchu a thipio anghyfreithlon? A oes cysylltiad rhwng y ddau? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 10

Eglurwch wrth y dysgwyr mai system ar gyfer canfod, rheoli a dadansoddi digwyddiadau tipio anghyfreithlon yw FlyMapper.

Gofynnwch iddynt gael mynediad at y wefan ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu, yn eich barn chi?
- Sut y defnyddir y wybodaeth hon, yn eich barn chi? Gan bwy?
- A ydych chi'n meddwl bod y drefn hon yn ymddangos fel ei bod yn effeithiol? A ydych chi'n meddwl ei bod yn cael yr effaith a ddymunir? Pam?

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo: Top 10 rubbish excuses given by fly-tippers (ychydig dros funud o hyd) ac yna i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A ydych chi'n meddwl y gallai fod rhywfaint o wirionedd yn unrhyw un o'r esgusodion hyn? Os ydych yn meddwl hynny – pa rai?
- Pam ydych chi'n meddwl y gallai pobl wneud esgusodion am dipio anghyfreithlon?
- Beth ydych chi'n meddwl yw'r gwir resymau dros dipio anghyfreithlon?

### Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr fod yna lawer o resymau pam mae pobl yn tipio'n anghyfreithlon, mewn gwirionedd. Gwahoddwch nhw i ystyried y meddyliau 'euog' wrth iddyn nhw ymddangos ar y sgrîn, ac yna penderfynu pa dri o'r rhain maen nhw'n meddwl allai fod fwyaf cyffredin yn eu hardal leol a Thirwedd Cenedlaethol Gŵyr, gan egluro pam.

### Sgrîn 13

Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu Trydar/X a fyddai'n helpu eraill i feddwl am dipio anghyfreithlon yn Nhirwedd Cenedlaethol Gŵyr. Atgoffwch nhw mai dim ond 280 nod sydd ganddyn nhw.

TASG 2

## SUT GALLWN NI DDARGANFOD MWY AM DIPIO ANGHYFREITHLON YN NHIRWEDD CENEDLAETHOL GŴYR?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn cefnogi eu dealltwriaeth ynghylch pam mae tipio anghyfreithlon yn broblem a pham mae pobl eisiau gwneud eraill yn ymwybodol o dipio anghyfreithlon, fel bod y broblem yn mynd yn llai.

### Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pam mae tipio anghyfreithlon yn broblem trwy glicio ar bob cymeriad a thrafod eu barn wrth iddyn nhw ymddangos ar y sgrîn.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa un o'r dysgwyr hyn sy'n gwneud y sylw mwyaf grymus, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa sylw arall ynglŷn ag effeithiau tipio anghyfreithlon, allech chi ei ychwanegu at y rhain?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr ei bod yn bwysig casglu ac archwilio gwahanol safbwyntiau ynghylch problem, er mwyn cael gwell dealltwriaeth ohoni.

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ddylunio a chynnal arolwg o farn a phrofiadau pobl o dipio anghyfreithlon yn yr ardal leol a Thirwedd Cenedlaethol Gŵyr. Cyn iddynt ddechrau, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth benodol ydych chi'n ceisio'i chasglu?
- Pwy yw cynulleidfa darged yr arolwg hwn?
- Pa fformat fydd i'r arolwg (e.e. ar-lein, papur)? Pam?
- Sut bydd yr arolwg yn cael ei ddosbarthu?
- Pa offer neu lwyfannau fydd yn cael eu defnyddio i greu a dosbarthu'r arolwg? Pam?
- Pa fath o gwestiynau fydd fwyaf effeithiol (e.e. amlddewis, penagored, graddfa Likert)? Pam?

Ar ôl cynnal y trafodaethau hyn, gofynnwch i'r dysgwyr ddrafftio eu cwestiynau.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y cwestiynau darfft a manylion eu harolwg, trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A yw'r cwestiynau'n ddiduedd ac yn niwtral?
- A yw pob cwestiwn yn berthnasol i amcanion yr arolwg?
- Pryd yw'r amser gorau i ddosbarthu'r arolwg? Pam?
- A oes dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r arolwg?
- Sut y byddwch yn sicrhau cyfrinachedd ac anhysbysrwydd ymatebwyr?
- Sut y byddwch yn sicrhau bod gennych y caniatâd angenrheidiol a chydsyniad ymatebwyr?

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i ddatblygu eu harolwg a'i gynnal.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr ddadansoddi canlyniadau eu harolwg a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut allech chi ddangos eich data a'ch canfyddiadau? Pa un yw'r ffordd orau? Pam?
- Pa batrymau neu dueddiadau allwch chi eu gweld yn y data?
- Sut allech chi esbonio eich data a'ch canfyddiadau? Beth yw eich casgliadau? Pam?
- Pa gwestiynau sydd gennych am eich data a'ch canfyddiadau? Sut allech chi ddod o hyd i'r atebion? Pam fyddai hyn yn gweithio?

Gallai dysgwyr greu siartiau bar, siartiau cylch, histogramau a diagramau gwasgariad neu ddefnyddio meddalwedd a fydd yn gwneud hynny ar eu cyfer.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ysgrifennu erthygl ar gyfer papur newydd lleol ar-lein, sy'n son am dipio anghyfreithlon yn Nhirwedd Cenedlaethol Gŵyr. Fodd bynnag, cyn iddynt ddechrau ar yr erthygl, mae angen iddynt ganfod tystiolaeth o dipio anghyfreithlon, a'i chofnodi. Gofynnwch i'r grwpiau drafod y cwestiynau canlynol a defnyddio'r map a ddarparwyd yn gymorth iddynt gasglu eu meddyliau.

**Cwestiynau ffocws**

- Ym mhle byddwch chi'n chwilio am dipio anghyfreithlon? Pam?
- Ym mhle ar y map mae'r mannau tipio anghyfreithlon mwyaf tebygol? Pam?
- Sut y byddwch yn sicrhau eich diogelwch wrth gasglu tystiolaeth o dipio anghyfreithlon?
- Sut y byddwch yn casglu tystiolaeth o dipio anghyfreithlon yn yr ardal? Pam?
- Sut byddwch chi'n cofnodi lleoliad y tipio anghyfreithlon rydych chi wedi'i ddarganfod?
- I bwy y byddwch yn rhoi gwybod am y tipio anghyfreithlon, wedi i chi ddod o hyd iddo? Pam y gallai hyn helpu?

## Sgrîn 9

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gasglu tystiolaeth o dipio anghyfreithlon, yn ddiogel, ac i gofnodi'r lleoliadau y daethpwyd o hyd iddo.

## Sgrîn 10

Atgoffwch y dysgwyr eu bod wedi casglu tystiolaeth o dipio anghyfreithlon yn Nhirwedd Cenedlaethol Gŵyr yn ogystal â barn pobl yn eu harolwg. Gwahoddwch nhw i ddefnyddio'r wybodaeth hon i ysgrifennu erthygl ar gyfer papur newydd ar-lein lleol am dipio anghyfreithlon yn Nhirwedd Cenedlaethol Gŵyr. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio unrhyw ffotograffau y maen nhw wedi'u cymryd, i ddarlunio'u herthygl.

TASG 3

# SUT GALLWN NI ANNOG POBL I GAEL GWARED AR WASTRAFF YN GYFRIFOL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn archwilio'r gwahanol gyfryngau sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon. Bydd hyn yn ysgogiad iddynt ddatblygu ymgyrch fer eu hunain ar y cyfryngau, gyda'r nod o annog pobl i gael gwared o'u sbwriel trwy ddull cyfrifol.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr am Taclo Tipio Cymru, sef menter bartneriaeth a noddir gan Lywodraeth Cymru a'i chydlynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon. Gwahoddwch nhw i gyrchu'r wefan, pori drwy'r erthyglau a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam, yn eich barn chi, y sefydlwyd Taclo Tipio Cymru?
- Pam ydych chi'n meddwl ei bod yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru?
- Sut gallai pobl ddefnyddio'r wefan?

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwr i wylio'r fideo Animeiddiad Taclo Tipio Cymru 'Sut i gael gwared  â'ch gwastraff yn gyfrifol' – (ychydig dros 2 funud o hyd).

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ddatblygu ymgyrch fer yn y cyfryngau er mwyn annog pobl i gael gwared ar eu sbwriel trwy ddull cyfrifol. Bydd yr ymgyrch yn cynnwys creu sticer car sy'n cynnwys slogan ar gyfer eu hymgyrch a phoster bach i'w osod ar ffenestri siopau.

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, rhoddir enghreifftiau o sticeri car. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol yn eu grwpiau.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa neges mae pob sticer yn ei chyfleu?
- Pa sticeri sydd â sloganau? Pa mor effeithiol yw'r sloganau? Pam?
- Pam fod pob sticer yn siâp arbennig?
- Pa symbolau/delweddau mae pob sticer yn eu defnyddio?
- Pa mor effeithiol yw pob sticer? Pam?

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i feddwl am eu sticer eu hunain a thrafod y cwestiynau a ofynnir.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa eiriau allweddol allech chi eu defnyddio yn eich sticer? Pa rai yw'r geiriau gorau? Pam?
- Pa symbolau neu ddelweddau allech chi eu defnyddio yn eich sticer? Pa rai yw'r symbolau neu'r delweddau gorau? Pam?
- Sut bydd y delweddau a'r symbolau yn cyfleu eich neges?

Gofynnwch i'r dysgwyr nodi rhai syniadau ar gyfer eu sticer slogan a llunio rhai syniadau drafft.

## Sgrîn 8

Dywedwch wrth y dysgwyr y gall eu sticer fod hyd at 15cm o hyd a 10cm o led.

Gofynnwch iddynt edrych ar eu syniadau am sloganau, symbolau a delweddau a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa eiriau, symbolau a delweddau fydd yn cyfleu eich neges orau? Pam?
- Beth ddylai eich slogan fod? Pam?
- Pa siâp ddylai eich sticer fod? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddrafftio eu dyluniad yn y siâp y maen nhw wedi penderfynu arno, gan wneud yn siŵr ei fod yn ffitio o fewn y dimensiynau cywir. Yna, gall y dysgwyr wneud eu sticer.

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, rhoddir poster i'r dysgwyr, sy'n annog pobl i gael gwared ar eu sbwriel trwy ddull cyfrifol. Gofynnwch iddynt edrych ar y poster a thrafod y cwestiynau canlynol yn eu grŵp.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ansoddeiriau allwch chi eu defnyddio i ddisgrifio'r poster?
- Sut mae'r poster yn gwneud defnydd o ddelweddau i ennyn eich diddordeb?
- Sut mae'r delweddau yn defnyddio lliw yn effeithiol?
- Pa wybodaeth mae'r poster yn ei darparu?
- Pa mor dda yw'r poster am annog pobl i gael gwared â sbwriel trwy ddull cyfrifol? Pam?

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried beth sy'n gwneud poster da ar gyfer annog pobl i gael gwared ar wastraff trwy ddull cyfrifol ac i drafod y cwestiynau canlynol yn eu grŵp.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw nodweddion pwysig poster da? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut allwch chi sicrhau bod eich poster yn annog pobl i gael gwared ar eu sbwriel trwy ddull cyfrifol?
- Sut gallwch chi wneud eich poster yn ddiddorol?
- Sut gallwch chi ddefnyddio delweddau? Pa ddelweddau ddylech chi eu defnyddio? Pam?
- Sut gallwch chi ddefnyddio lliw yn effeithiol?
- Pa wybodaeth ydych chi am i'ch poster ei darparu? Sut gallwn ni sicrhau bod y wybodaeth yn glir?

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud eu poster.

## Sgrîn 11

Ar sgrîn olaf y dasg hon, darperir ymadroddion y gellir eu defnyddio ar ddechrau brawddegau. Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio dau neu fwy na dau o'r ymadroddion ac i gwblhau'r brawddegau, wrth iddynt fyfyrio ar ddatblygiad eu hymgyrch fer yn y cyfryngau.